**MEMORANDWM ODDI WRTH Y GWEINIDOG DROS IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**CYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU**

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) 2011**

**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Drafft mewn perthynas â rhoi organau a meinweoedd at ddibenion trawsblannu**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn esbonio cefndir a chwmpas y pwerau y gofynnir amdanynt yn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig.

2. Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") sy'n diffinio cwmpas cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") i basio deddfwriaeth. Mae Atodlen 5 i Ddeddf 2006 ("Atodlen 5") yn cynnwys 20 o 'feysydd' (maes 9 yw "iechyd a gwasanaethau iechyd"), a gall y meysydd hynny gynnwys 'materion' cysylltiedig (mae mater 9.1 yn ymwneud â "darparu iawn mewn cysylltiad â'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru"). Mae pŵer gan y Cynulliad i ddeddfu o fewn cwmpas y materion yn Atodlen 5, drwy basio Mesurau Cynulliad.

3. Mae Mesur yn cael yr un effaith â Deddf Seneddol. Yn ddarostyngedig i rai cyfyngiadau a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, caiff Mesur ddiwygio deddfwriaeth bresennol a gwneud darpariaethau newydd mewn perthynas ag unrhyw fater yn Atodlen 5.

4. Un ffordd o estyn cymhwysedd y Cynulliad i basio deddfwriaeth yw drwy Orchymyn a wneir gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor. Gelwir Gorchymyn o'r

fath yn ‘Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol’ (“GCD”), a wneir o dan adran 95 o Ddeddf 2006. Mae’n diwygio Atodlen 5 drwy ychwanegu materion, a bennir yn y Gorchymyn sy’n ymwneud ag un neu ragor o’r ‘meysydd’ yn Atodlen 5.

5. Diben yr GCD arfaethedig sy’n gysylltiedig yma yw estyn cymhwysedd y Cynulliad ym maes 9 (iechyd a gwasanaethau iechyd) o Atodlen 5. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru, Aelodau’r Cynulliad a Phwyllgorau’r Cynulliad ddod â chynigion gerbron ar gyfer deddfwriaeth, mewn perthynas â chydsyniad neu fath arall o awdurdodiad i roi organau a meinweoedd at ddibenion trawsblannu, o fewn cwmpas y materion newydd, y caiff y Cynulliad wedyn graffu arni a’i phasio.

**Cefndir**

6. Dymuniad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw cynyddu nifer y rhoddwyr organau a meinweoedd yng Nghymru, er mwyn gwella iechyd ac ansawdd bywyd dinasyddion.

7. Mae’r GCD arfaethedig yn ymwneud â rhoi organau a meinweoedd. Ar hyn o bryd, Deddf Meinweoedd Dynol 2004 sy’n llywodraethu’r modd y defnyddir meinweoedd ac organau. Mae’r drefn gyfredol o ymuno drwy ddewis â’r system ar gyfer rhoi organau yn cynnwys meinweoedd ac organau. Mae’r Gofrestr Rhoddwyr Organau (“CRhO”) yn ymdrin ag organau a chornbilennau. Dylid nodi bod diffyg manylder yn gyffredin mewn adroddiadau a chyhoeddiadau sy’n gyfeirio at roi organau a meinweoedd. Yn wir, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn ei hunan yn cyfeirio at adroddiadau a chyhoeddiadau sy’n sôn am “organau” yn unig, pan fo “meinweoedd” hefyd yn gynwysedig. Er mwyn osgoi amheuaeth, felly, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn a’r GCD cysylltiedig yn cyfeirio at feinweoedd yn ogystal ag organau.

8. Dylid nodi bod awduron rhai o'r cyhoeddiadau y cyfeirir atynt yma, sy'n tarddu o ffynonellau allanol, yn defnyddio'r ymadrodd "cydsyniad tybiedig" (*"presumed consent"*) wrth gyfeirio at y system o ymeithrio.

9. Bwriad Llywodraeth Cynullid Cymru yw ceisio sefydlu system ymeithrio mewn perthynas â rhoi organau, ar gyfer pobl sy'n byw ac yn marw yng Nghymru, yn ogystal â pharhau i gyfranogi yn y system bresennol o ddewis ymuno, a weithredir ledled y DU.

10. Yn y ddogfen hon, esbonnir y rhesymeg dros ymyrryd ymhellach yng Nghymru, yn ychwanegol at y system o ddewis ymuno a weithredir yn y DU. Dylid nodi bod llawer o gynnydd wedi ei wneud eisoes, ledled y DU dros y blynyddoedd diweddar, a bod y nifer mwyaf erioed o drawsblaniadau (3,706) wedi eu cyflawni y llynedd, sef cynnydd o 5% dros y flwyddyn faenorol[1]. Cofnodwyd cynnydd mwy, hyd yn oed, yng Nghymru, sef codiad o 20% yn nifer y rhoddwyr organau, a chynnydd yng nghyfradd y rhoddion gan rai a fu farw, o 12.2 fesul miliwn poblogaeth ("fmp") i 13.7 fmp. Seiliwyd y gwelliannau hyn ar weithredu'r argymhellion a wnaed gan y Tasglu Rhoi Organau yn 2008, sy'n anelu at gynnydd o 50% yn y cyfraddau rhoi organau erbyn 2013. Hyd yma, mae'r cyfraddau rhoi, ledled y DU, wedi cynyddu tua 22% o gymharu â'r flwyddyn waelodlin, sef 2007/08.

*Y galw am organau a meinweoedd*

11. Ledled y Deyrnas Unedig, mae cannoedd o bobl sydd ar y rhestrau aros am drawsblaniadau yn marw bob blwyddyn tra byddant yn disgwyl i roddwr addas ddod ar gael. Allan o ryw 1,000 o bobl sy'n marw bob blwyddyn o ddiffyg trawsblaniad, tua 500 yn unig sydd ar y rhestr aros mewn gwirionedd[2]. Mae tystiolaeth bod y rhestr aros am drawsblaniadau'n tanddatgan y nifer gwirioneddol y mae arnynt angen trawsblaniad, ac y byddai clinigwyr yn rhoi llawer mwy ar y rhestr aros pe bai mwy o organau ar gael.

[1] *NHS Blood and Transplant Annual Activity Report 2009/10*, 4 Tachwedd 2010.
[2] TRhO, *Organs for Transplants: The Supplement Report* 2008

*Y cyflenwad o organau a meinweoedd*

12. Mae'r newidiadau mewn seilwaith, o ganlyniad i weithredu argymhellion y Tasglu Rhoi Organau yn rhoi sylw i'r angen i adnabod pob rhoddwr posibl. Ond hyd yn oed pan adwaenir person fel rhoddwr, mae'n digwydd droeon na fydd yr organau ar gael, nid oherwydd gwrthwynebiad y person a fu farw ond oherwydd nad oedd wedi llofnodi'r CRhO, neu hysbysu ei berthnasau o'i ddymuniad. Pan ofynnid i berthnasau benderfynu ar y mater hwn, yr oedd hyd at 40% yn dewis peidio â rhoi'r organau, a hynny yn aml heb wybod beth oedd dymuniad yr unigolyn a fu farw.

13. Ategir hyn gan arolygon, gan gynnwys un a wnaed gan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ("NHSBT"), a adroddodd fod 90% o'r bobl yn honni bod yn gefnogol i roi organau, ond mai oddeutu 28% yn unig o boblogaeth y DU sydd wedi eu cofrestru yng Nghofrestr Rhoi Organau y GIG. Roedd tua 30% o'r rhai a roddodd organau yn 2009/10 wedi cofrestru eu dewis penodol i'w rhoi yn yr CRhO, ond yn y 70% o achosion a oedd yn weddill, y teuluoedd a benderfynodd ar ran yr ymadawedig.

14. Fel enghraifft bellach, sy'n darlunio prinder y rhoddion o organau a meinweoedd cyrff marw, mae'n berthnasol nodi'r cynnydd yn nifer y trawsblaniadau o roddwyr sy'n fyw, yn enwedig trawsblaniadau arennau. (Golyga hyn fod mwy o unigolion iach yn dioddef gweithdrefn lawfeddygol fawr, a allai effeithio ar eu hiechyd a'u lles, gan achosi costau uwch i'r GIG mewn perthynas â'r weithdrefn lawfeddygol ychwanegol a chost gofal iechyd y rhoddwr byw ar ôl y driniaeth). Yn 2009/10 rhoddwyr byw a ddarparodd 50 (42%) o'r holl arennau a drawsblannwyd mewn pobl sy'n byw yng Nghymru.

15. Er gwaethaf datblygiadau o'r fath, mae'r bwlch rhwng nifer y rhoddwyr a nifer y bobl y mae arnynt angen trawsblaniad yn y DU yn parhau i gynyddu oddeutu 8%[3] bob blwyddyn. Er bod y cyfraddau rhoi wedi cynyddu tua 22% er

[3] Yr Adran Iechyd, *Organs for Transplants*: *a report from the Organ Donation Taskforce*. Ionawr 2008

2007/08, mae'n arwyddocaol bod y bwlch hwn wedi parhau er gwaethaf yr ymgyrchoedd hysbysebu maith, yr anogaeth i fynd yn rhoddwyr, a'r ffaith mai trawsblannu aren yw'r driniaeth fwyaf effeithiol, yn glinigol ac o ran cost, i rai sy'n dioddef o fethiant arennol cyfnod-terfynol ["MACT"]. Trawsblaniad, hefyd, yw'r unig driniaeth sydd ar gael ar gyfer methiant cyfnod-terfynol organau megis yr afu, yr ysgyfaint a'r galon.

*Ystyriaeth o'r trefniadau cyfredol*

16. Yn 2008, yn dilyn adolygiad o roi organau yn y DU a mannau eraill, gwnaed pedwar ar ddeg o argymhellion gan y Tasglu Rhoi Organau ("TRhO")[4] o fewn y fframwaith deddfwriaethol cyfredol.

17. Roedd pob un o'r pedair gweinyddiaeth yn y DU yn cefnogi'r pedwar argymhelliad ar ddeg a wnaed gan y TRhO, a sefydlwyd Grŵp Gweithredu Cymru ar gyfer Rhoi Organau ("GGCRhO") er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu yng Nghymru. Mae gwaith y GGCRhO yn parhau, ond hyd yn oed os cyflawnir ef yn llwyr, ni ddisgwylir iddo ddarparu'r nifer o roddwyr sy'n ofynnol i gwrdd â'r galw.

18. Yn ddiweddarach yn 2008, mewn darn o waith pellach, edrychodd y TRhO ar effaith bosibl system o ymeithrio mewn perthynas â rhoi organau yn y DU, ac argymhellodd yn erbyn system o'r fath[5]. Roedd y sefydliadau a oedd o blaid rhagdybio cydsyniad yn cynnwys y Prif Swyddogion Meddygol (ym mhob un o'r pedair gwlad), Cymdeithas Feddygol Prydain ('BMA'), Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain a Choleg Brenhinol y Nyrsys.

19. Hefyd yn 2008, bu Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad yn cynnal ymchwiliad i'r posibilrwydd o ragdybio cydsyniad ar gyfer rhoi organau. Ei argymhelliad oedd na ddylai'r Cynulliad ofyn am gymhwysedd

---

[4]TRhO "*Organs for Transplants*"

[5] TRhO "*The potential impact of an opt-out system for organ donation in the UK*" Tachwedd 2008

deddfwriaethol ar y pryd hwnnw, ond ychwanegodd y dylai unrhyw ddeddfwriaeth i gyflwyno cydsyniad tybiedig yng Nghymru yn y dyfodol fabwysiadu system “feddal” o ymeithrio.

20. Hefyd yn 2008, lansiwyd trafodaethau cyhoeddus gan Edwina Hart AC OStJ MBE, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru (‘LlCC’), ynglŷn â rhoi organau yng Nghymru; ac ym Mai 2009, cyhoeddodd LlCC bapur ymgynghori[6] ar y pwnc. Roedd yr adborth o’r rhain yn dangos bod cefnogaeth i gyflwyno cyfreithiau newydd yng Nghymru ar gyfer system “feddal” o ymeithrio o roi organau. Roedd y canlyniad hwn yn adlewyrchu canlyniadau arolygon cyffelyb a gynhaliwyd ledled y DU[1], a ganfu y byddai mwyafrif o’r cyhoedd, sef oddeutu 60%, yn cefnogi newid i system o ymeithrio.

**Y rhesymeg**

21. Rhoddir crynodeb isod o’r prif resymau dros fabwysiadu system “feddal” o ymeithrio o roi organau yng Nghymru. Paratowyd y rhestr wreiddiol gan Gymdeithas Feddygol Prydain[7] ond ategir hi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru:

- “Mae astudiaethau’n dangos bod mwyafrif o’r bobl yn dweud y byddent yn fodlon rhoi eu horganau at ddibenion trawsblannu, ond tua chwarter y boblogaeth yn unig sydd â’u henwau yng Nghofrestr Rhoi Organau y GIG *[yn y DU]*
- O ystyried bod mwyafrif o’r bobl yn dweud y byddent yn fodlon rhoi, mae rhagdybio cydsyniad yn hytrach na rhagdybio gwrthwynebiad yn fwy tebygol o sicrhau’r nod o barchu dymuniad y person ymadawedig.

---

[6] “*Opsiynau ar gyfer newid y system rhoi organau yng Nghymru* ”
[7] Cymdeithas Feddygol Prydain, Briff ar Adroddiad Gweithgor Clinigol, a gynhwysir yn Ychwanegiad E o Atodiad B yn *A report from the Organ Donation Taskforce*. Ionawr 2008

- Yn wahanol i'r system gyfredol, byddai mecanwaith eglur ar gyfer amddiffyn dymuniadau'r rhai nad ydynt yn dymuno bod yn rhoddwyr.
- Er y byddid yn parhau i ymgynghori â pherthnasau, caent eu rhyddhau o'r baich o wneud penderfyniad yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth o ddymuniadau'r ymadawedig.
- Byddai newid i gyfeiriad rhagdybio cydsyniad yn ysgogi mwy o drafod o fewn teuluoedd ynghylch rhoi organau.
- Gyda newid o'r fath, byddai rhoi organau yn dod yn amgylchiad diofyn. Byddai hynny'n cynrychioli agwedd fwy cadarnhaol tuag at roi organau, ac yn ddatblygiad i'w gymeradwyo.
- Er cydnabod mor anodd yw casglu data ystyrlon ynglŷn â chydsyniad tybiedig mewn gwledydd eraill, mae'r BMA o'r farn y byddai newid i ragdybio cydsyniad, fel un rhan o strategaeth ehangach, yn debygol o gael effaith fuddiol ar y cyfraddau rhoi".

**Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru**

22. Gwnaed Datganiad Cabinet Ysgrifenedig ynglŷn â Rhoi Organau yng Nghymru gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 18 Rhagfyr 2009, ac ar 13 Gorffennaf 2010 cyhoeddodd y Prif Weinidog y bwriad i geisio'r pwerau deddfu angenrheidiol, yn rhan o raglen ddeddfwriaethol 2010/11.

23. Gofynnir am gymhwysedd deddfwriaethol i ddarparu ar gyfer newidiadau i'r system o gydsynio i roi organau a meinweoedd cyrff marw at ddibenion trawsblannu.

**Y fframwaith deddfwriaethol a gweinyddol cyfredol**

Deddf Meinweoedd Dynol 2004

24. Mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (“DMD”) yn gymwys i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (mae deddfwriaeth ar wahân yn yr Alban, sef Deddf Meinweoedd Dynol (Yr Alban) 2006). Y DMD sy’n llywodraethu tynnu, storio a defnyddio organau a meinweoedd o berson marw ar gyfer trawsblannu ac at ddibenion eraill nad ydynt o fewn cwmpas yr GCD presennol. Mae’r DMD yn gwneud cydsyniad yn egwyddor sylfaenol ar gyfer storio a defnyddio organau a meinweoedd yn gyfreithlon.

Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol

25. Sefydlwyd yr Awdurdod Meinweoedd Dynol yn 2005 i reoleiddio tynnu, storio, defnyddio a gwaredu meinweoedd ac i weithredu fel awdurdod cymwys cenedlaethol y DU o dan y Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Feinweoedd a Chelloedd (“CEFaCh”) sy’n ymwneud â rheoleiddio Meinweoedd a Chelloedd ar gyfer eu defnyddio mewn pobl (ac eithrio’r rhai a reoleiddir gan yr Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg). Mae’n gyfrifol hefyd am gymeradwyo rhoi organau gan unigolion byw, trwyddedu amrywiol weithgareddau a chynnal arolygiadau.

Gwaed a Thrawsblaniadau’r GIG (“NHSBT”)

26. Mae Cyfarwyddiaeth Rhoi Organau a Thrawsblannu NHSBT (Awdurdod Iechyd Arbennig ar gyfer Cymru a Lloegr) yn rheoli rhestrau aros am drawsblaniadau, yn dyrannu organau, yn casglu a dadansoddi data trawsblannu ar gyfer pob uned drawsblannu yn y DU, ac yn hyrwyddo rhoi organau a Chofrestr Rhoi Organau y GIG. Mae’r holl organau a roddir yng Nghymru yn cael eu dyrannu gan NHSBT, ar sail y DU.

**Y cwmpas**

27. Cynigir bod y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwn yn mewnosod un mater (Mater 9.3) ym Maes 9: iechyd a gwasanaethau iechyd

yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu drwy gyfrwng Mesur Cynulliad .

Mater 9.3

28. Byddai'r mater yn darparu cymhwysedd i'r Cynulliad i gyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â rhoi cydsyniad i neu awdurdodi'r gweithgareddau canlynol at y diben o drawsblannu i gorff dynol:

(a) storio a defnyddio corff oedolyn marw;

(b) tynnu, storio a defnyddio unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n cyfansoddi corff o'r fath neu sy'n gynwysedig ynddo.

29. Nid yw'r mater yn ymestyn hyd at gydsynio i, neu awdurdodi rywfodd arall, unrhyw un o'r gweithgareddau a bennir ym mharagraff 28(a) a (b) os yw'r person sy'n cyflawni'r gweithgaredd hwnnw yn gwybod, neu os oes ganddo reswm i gredu, bod angen, neu y gallai fod angen corff y person marw, neu ddeunydd perthnasol a ddaeth o gorff y person marw, at ddibenion swyddogaethau crwner.

30. Mae'r mater yn diffinio "oedolyn marw" i olygu person marw a oedd wedi cyrraedd 18 oed cyn ei farwolaeth. Mae i "ddeunydd perthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant material" yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004, sef deunydd a gyfansoddir o gelloedd dynol, neu sy'n cynnwys celloedd dynol, ac eithrio gametau, embryonau y tu allan i'r corff dynol a gwallt ac ewinedd o gorff person byw. Mae hyn yn cynnwys organau, rhannau o organau, meinwe a chelloedd y cyfansoddir corff o'r fath ohonynt, neu sy'n gynwysedig ynddo. Defnyddir diffiniad cyffelyb at ddibenion yr GCD.

31. Byddai'r cymhwysedd deddfwriaethol hwn yn caniatáu datblygu deddfwriaeth a fyddai'n gyrru yn ei flaen bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o gynyddu'r nifer o organau a meinweoedd a fydd ar gael i'w rhoi, ac yn benodol, cyflwyno system ymeithrio "feddal". Yr hyn a olygwn wrth system ymeithrio "feddal" yw y câi meddygon dynnu organau o bob oedolyn sy'n byw

ac yn marw yng Nghymru pan fo'r gyfraith yn gymwys iddo, oni fydd y person wedi cofrestru i ymeithrio; ond byddai meddygon yn mabwysiadu'r arfer da o ofyn i'r perthnasau gydsynio ar adeg y farwolaeth. Bydd angen pennu'n eglur, mewn deddfwriaeth o'r fath, y personau y bydd y ddeddfwriaeth yn gymwys iddynt.

32. Mae gwaith ar droed eisoes i ddatblygu mecanwaith ar gyfer penderfynu i bwy y bydd y Mesur yn gymwys. Os cyflwynir system ymeithrio "feddal" yng Nghymru, bydd yn bwysig sicrhau bod y bobl y bydd y system yn gymwys iddynt wedi bod yng Nghymru am gyfnod digonol o amser i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system, er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn ag ymeithrio, a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r criteria cymhwyster posibl a ystyriwyd hyd yma yn cynnwys pobl yn y categorïau canlynol:

- rhai sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru;
- rhai sydd ar y Gofrestr Etholwyr;
- rhai sydd ar gofrestr ymarferydd meddygol cyffredinol;
- rhai sydd wedi preswylio yng Nghymru am 6 mis, plws prawf arall. Mae hyn yn ymdebygu i'r model yng Ngwlad Belg.

33. Mae'r ymadrodd "yn preswylio fel arfer" (*"ordinarily resident"*) yn derm a ddefnyddir yn aml mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, ond nid oes diffiniad ohono mewn unrhyw statud. Bu'r term dan ystyriaeth droeon gan y llysoedd, gan gynnwys yn achos Shah v. Cyngor Bwrdeistref Llundain Barnet [1983] 1ALL ER 226. Yn yr achos hwnnw daeth yr Arglwydd Scarman i'r casgliad bod "ordinarily resident" yn cyfeirio at preswylfa dyn mewn man penodol neu wlad benodol a fabwysiadwyd ganddo'n wirfoddol at ddiben sefydlog, yn rhan o drefn reolaidd ei fywyd ar y pryd, pa un ai am gyfnod byr neu hir.

34. Er mwyn profi preswyliad arferol mae'n bwysig bod y breswylfa wedi ei mabwysiadu'n wirfoddol, a bod elfen o ddiben sefydlog. Fodd bynnag, mae anawsterau'n codi ynglŷn â'r opsiwn hwn, oherwydd gallai rhywun ddod yn breswylydd arferol o fewn un diwrnod, a heb gael cyfle, felly, i ymeithrio. Ni ellir rhagdybio cydsyniad pobl oni fyddant wedi cael gwybodaeth briodol a chyfle dilys i ymeithrio.

35. Yn ddarostyngedig i wneud yr GCD, bydd angen datblygu'r opsiynau hyn ymhellach fel rhan o'r broses ddeddfwriaethol, a byddai'r criteria priodol yn cael eu pennu yn y Mesur Cynulliad. Datblygir y criteria gan sicrhau y byddant yn gymwys, yn unig, i'r bobl sy'n byw yn ogystal â marw yng Nghymru. Yn ychwanegol, byddai angen gwneud darpariaeth yn y Mesur Cynulliad i eithrio grwpiau penodol. Mae'r grwpiau hynny'n debygol o gynnwys y canlynol:

- Pob plentyn dan 18 oed;
- Oedolion heb alluedd

Terfynau daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad

36. Mae adran 94 o Ddeddf 2006 yn gwahardd Mesurau'r Cynulliad rhag cael effaith ac eithrio o ran Cymru. Mae'r GCD hwn yn gymwys yn unig i bobl sy'n byw a marw yng Nghymru. Mater i Fesur a fydd yn dilyn yw'r modd y diffinnir hyn.

Swyddogaethau Gweinidogion y Goron

37. Mae Rhan 2 o Atodlen 5 yn rhwystro Mesurau Cynulliad rhag newid swyddogaethau Gweinidog y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Nid oes unrhyw swyddogaethau o'r fath wedi eu pennu'n swyddogaethau y mae'r GCD hwn yn ymwneud â hwy.

**Casgliad**

38. Am y rhesymau a amlinellir uchod, cynigir bod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cael ei estyn yn unol â darpariaethau'r GCD arfaethedig y mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud ag ef.

---

[1] Adroddiad y Tasglu Rhoi Organau 2008